CORWYNT CARIAD

# Y Pilipinas

## Cyflwyniad

Gwlad o dros 7,400 ynys yw Gweriniaeth y Pilipinas yng ngorllewin y Môr Tawel ac mae dros 100 miliwn o bobl yn byw yno. Mae wedi ei lleoli yn yr ardal adnabyddir fel y Cylch Tanllyd ac yn agos at at y cyhydedd ac felly mae'n dioddef daeargrynfeydd, gweithgaredd folcanig a chorwyntoedd.

Mae bioamrywiaeth gyfoethog yn y Pilipinas, gyda choedwigoedd glaw trofannol yn y mynyddoedd a digon o arfordir yn lloches i rywogaethau na cheir hwy yn unlle arall. Mae'r hinsawdd yn boeth a llaith.

## Hanes gwleidyddol

Yn 1521, hawliwyd yr ynysoedd ar ran Sbaen gan y teithiwr o Bortiwgal, Ferdinand Magellan, er na chychwynwyd gwladychu hyd nes i'r Sbaenwyr cyntaf gyrraedd yn 1565. O dan reolaeth Sbaen, daeth yr ynysoedd yn un wladwriaeth. Cyn hynny, casglaid o ynysoedd annibynol a gwladwriaethau dinesig oeddynt, yn masnachu a'i gilydd ac a gwledydd cyfagos, megis China, India a Siapan. Roedd diwylliant amrywiol gyfoethog yno, gyda nifer o iethoedd a chrefyddau, gan gynnwys Hindwaeth a Bwdaeth. Cyrhaeddodd Islam yno yn 1300 ac ymledodd yn araf trwy'r wlad. Dim ond wedi i'r Sbaenwyr gyrraedd y cyflwynwyd Cristnogaeth.

Am 300 mlynedd, Sbaen yn bennaf oedd yn rheoli'r ynysoedd ond erbyn y 19fed ganrif cryfhaodd yr awydd am annibyniaeth. Daeth y Pilipinas yn wlad annibynnol yn 1945, ac roedd yn un o sefydlwyr cyntaf y Cenhedloedd Unedig.

Bregus oedd democratiaeth hyd at 1986, gydag unbennaeth Marcos yn neilltuol yn bennod dywyll yn hanes y wlad. Fodd bynnag, yn dilyn yr etholiad yn 1986, pryd y cafwyd chwyldro Grym y Bobl a phryd y daeth Corazon Aquino yn arlywydd, mae'r Pilipinas wedi mwynhau cyfnod o sefydlogrwydd gwleidyddol.

## Economi

Gwlad sydd yn trawsnewid yn economaidd yw'r Pilipinas - oddi wrth amaethyddiaeth i wasanaethau a gweithgynhyrchu. Mae tua 30% o'r boblogaeth yn dal i fyw ar y tir (o'i gymharu â 1.3% ym Mhrydain). Mae sefydlogrwydd gwleidyddol wedi caniatáu twf economaidd ac y mae'r Pilipinas bellach yn 30ain yn y byd yn ôl GDP. Mae'n allforio nwyddau megis offer electroneg, offer trafnidiaeth, copr, olew coconyt a ffrwythau.

Er y llwyddiant hwn, mae'r economi yn dal i ddibynnu llawer ar yr arian a anfonir adref gan frodorion sy bellach yn byw a gweithio dramor. Mae eu cyfraniad yn fwy na'r buddsoddiad tramor i'r wlad. Mae'r twf wedi bod yn anwastad hefyd, gyda'r brifddinas, Metro Manila, yn tyfu'n gryf, tra bod yr ardaloedd gwledig yn dlotach. Yn wir mae'r ardaloedd gwledig yn dlawd iawn a hefyd yn dioddef yn waeth gan drychinebau a gwrthdaro.

## Trefoli

Mewn gwledydd o amgylch y byd, mae datblygiad diwydiannol yn arwain at drefoli, wrth i bobl wledig gael eu denu i'r trefi yn chwilio am gyflogau uwch a bywyd gwell. Dyma brofiad y Pilipinas hefyd.

Mae 12.8 miliwn yn byw yn Metro Manila, ble mae dwysedd y boblogaeth yng nghanol y ddinas yn 46,000 person ym mhob km$^2$ (o'i gymharu â 2,500 yng Nghaerdydd). Er eu gobeithion a'u dyheadau, fodd bynnag, ac er bod cyflogau'r ddinas yn uwch na'r wlad, mae tlodi ac amodau byw gwael yn broblem fawr yn y dinasoedd hyn, ble mae miloedd o bobl wedi eu gwasgu i slymiau heb eu cynllunio gyda phrin ddim gwasanaethau.

# Stori Filomena: ymladd cliriad gorfodol o'r slym

Mae Filomena Cinco yn wraig briod yn ei 50au cynnar. Mae'n byw gyda'i theulu yn Estero de San Miguel, un o slymiau niferus Manila. Symudodd i Manila pan yn wraig ifanc a chyfarfod a'i gŵr Raul, a gafodd ei eni yno. Gyda'i gilydd, bu iddynt sefydlu eu bywyd yno, a hynny mewn amgylchiadau anodd.

Nid tlodi ac amodau byw anodd yn unig y mae Filomena a Raul wedi eu hwynebu, ond hefyd polisi tymor hir y llywodraeth o glirio'r slymiau yn orfodol a symud y bobl allan o'r ddinas. Yn ôl partner Cymorth Cristnogol UPA (Urban Poor Associates) ar un pryd roedd tua 100,000 o bobl yn cael eu gorfodi o'u cartrefi pob blwyddyn. Er bod y llywodraeth yn cynnig cartrefi amgen iddynt, roeddent ymhell o'u lle gwaith, gyda phrinder gwasanaethau angenrheidiol. Er bod clirio'r slymiau yn nod deilwng, nid clirio gorfodol i ardaloedd ymhell o'r ddinas yw'r ateb, yn enwedig gan nad yw'r bobl eu hunain am symud.

Gan mai prin iawn oedd eu dealltwriaeth o'r gyfraith a gweithredu cymunedol, roedd y trigolion yn ei chael hi'n anodd ymladd, ond roeddent yn benderfynol o gael aros. Dyma ble bu gwaith UPA yn allweddol, trwy hyfforddi'r bobl i ymladd dros eu hawliau.

## Hawliau i'r tir

Etholwyd Filomena fel Capten y Barangay ar gyfer ei hardal - tebyg i gadeirydd cyngor cymuned - yn 2010. Arweiniodd y frwydr yn erbyn clirio gorfodol. 'Mae wedi bod yn ymdrech parhaus,' meddai, gan ychwanegu, 'ond mae'r gymdeithas yn gref oherwydd y perthnasau cryf sydd rhyngom.'

Ystafell fyw cartref newydd Filomena

Fiolmena y tu allan i'w chartref newydd

Roedd prinder y gwasanaethau sylfaenol yn y slymiau yn gwneud bywyd yn galed. Nid oedd ganddynt ddŵr na thrydan, ac er eu bod yn gallu talu, nid oedd yr awdurdodau yn fodlon eu cyflenwi am nad oedd y gweithredoedd ganddynt i'r tir. Trwy weithio fel cymdeithas, ymdrechodd Filomena a'i chymdogion am bum mlynedd i sicrhau hawl i'r tir. Yna cytunodd y cwmni ynni roi cyflenwad iddynt.

Y cam nesaf ar ôl sicrhau'r hawl i'r tir, oedd pwyso ar y llywodraeth i roi gwasanaethau gwell iddynt. Y prif beth oedd codi tai newydd. Mae'r cyntaf o'r cartrefi newydd hyn wedi eu codi a 21 teulu eisoes wedi symud i mewn. Adeiladir mwy dros y misoedd nesaf.

Roedd Filomena yn un o'r cyntaf i symud i'w chartref newydd. Mae'n falch iawn ohono - mae mor wahanol i'r hyn oedd ganddi ynghynt. Ar ôl gweld y tŷ am y tro cyntaf, cusanodd ei ŵyr y muriau a'r lloriau a dweud, 'Mae mor hyfryd - dim mwy o chwain na chwilod!' 'Daeth dagrau i'm llygaid,' meddai ei nain.

Mae UPA yn derbyn cyllid gan Cymorth Cristnogol ac mae eu gwaith wedi bod yn allweddol. Maent wedi addysgu'r tlawd am eu hawliau a helpu'r gymuned i drefnu ymgyrch yn erbyn y clirio trwy ddulliau di-drais. Mae hefyd yn cyflogi arbenigwr yn y cyfryngau i hysbysu'r cyhoedd am sut yr effeithir y tlawd gan bolisi llywodraeth.

# Jeorgie Tenolefe: creu cyfleoedd cyflogaeth

Tyfodd cymuned Baseco ar dir a adenillwyd o ardal y porthladd ym Mae Manila. Fel slymiau eraill yn Manila, mae Baseco yn denu pobl o ardaloedd gwledig yn gobeithio am fywyd gwell yn y ddinas. Fodd bynnag, mae diffyg addysg y bobl yn arwain at ddiweithdra uchel.

Yn 2001, gyda help UPA, sefydlodd y trigolion gymdeithas menter o'r enw Kabalikat. Penodwyd Jeorgie Tenolefe, gŵr lleol 31 oed, fel y llywydd. Ar y pryd roedd yr awdurdodau am lanhau'r Afon Pasig a chlirio'r slymiau. Trefnodd UPA gyfarfod i'r trigolion a'r awdurdodau, ac aeth Jeorgie iddo. 'Mynychais y cyfarfod, ac ar ôl mynd adra, meddyliais be oedd gan y dyfodol ar fy nghyfer i a'm teulu a sut y gallwn wneud gwahaniaeth a helpu,' eglurodd, a dyna pryd y penderfynodd fynd yn llywydd.

Rhan allweddol o waith Kabalikat ydi sicrhau hawl cyfreithiol y trigolion i'r tir y maent yn byw arno ac yna galw am dai newydd gan y llywodraeth. Fel canlyniad i'r gwaith hwn, mae rhyw 3,000 o deuluoedd yn byw mewn cartrefi da a rhwng 3,000 a 4,000 teulu gyda thoiled yn eu cartrefi. Mae hwn yn gam mawr ymlaen, er bod angen gwneud llawer mwy.

## Atal llifogydd

Mae corwyntoedd yn creu gwyntoedd a thonnau cryf ar hyd yr arfordir, sy'n golygu bod slymiau Manila mewn perygl o orlifo. Mae trigolion Baseco wedi bod yn plannu fforestydd 'mangrove' sydd yn arbed yr arfordir ac yn gwarchod bywyd gwyllt.

Mae Kabalikat yn helpu pobl i ddatblygu eu gerddi eu hunain ac maent yn tyfu llysiau megis pechay (pak choi), malunggay (coed efo gwraidd, hadau a dail y gellid eu bwyta) a phlanhigion wy.

Er mwyn helpu pobl allan o dlodi, cefnogodd Kabalikat sefydlu cwmni i gynhyrchu bagiau Habi. Ystyr 'habi' ydi 'wedi ei weu' ac fe wneir y bagiau allan o ddefnyddiau a deflir allan gan ffatrïoedd eraill. Mae'r bagiau yn gwerthu'n dda ac mae'r cynhyrchwyr yn gobeithio ennill mwy o farchnad.

Mae gwehyddion yr habi wedi dylunio a chynhyrchu matiau bwrdd cymun fel bod eglwysi Cymru yn gallu eu prynu fel rhan o'r apêl.

Jeorgie (yr ail o'r chwith) gyda chydweithwyr yn dangos rhai o nwyddau habi.

## Gweddi

Arglwydd Dduw, gweddïwn dros y Pilipinas. Diolchwn iti am y cyfle i ddysgu mwy am y wlad hardd hon a'i phobl. Trwy ein partneriaeth gyda Cymorth Cristnogol, gweddïwn am ysbrydoliaeth wrth inni godi arian tuag at y gwahanol brosiectau yno. Gofynnwn am dy fendith ar Filomena a Jeorgie wrth iddynt barhau i alw am gyfiawnder i'w cymunedau. Yn enw Iesu. Amen.

cymorth cristnogol

www.ebcpcw.cymru

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · THE PRESBYTERIAN CHURCH OF WALES · GOLEUNI Y BYWYD

Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. © Cymorth Cristnogol Tachwedd 2016 Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. Argraffwyd yn llwyr ar ddeunydd wedi tarddu o fforestydd a reolir yn gyfrifol. Llun: Cymorth Cristnogol J6751